

Llythyr Newyddion Mudo Uned4 ERP CSC i'r Cwmwl

Mehefin
2025
Rhifyn 1

Y newyddion diweddaraf a'r cynnydd gan y Tîm Systemau

Y TU MEWN

Newydd yn y rhifyn hwn

Y cynllun ar gyfer mudo


Uned4 ERP i'r Cwmwl

Beth mae hyn yn ei olygu i ddefnyddwyr?

A fydd yn wahanol?

Beth nesaf?

Uned4 ERP 7.15



Newydd yn y rhifyn hwn


Y cynllun ar gyfer mudo Uned4 ERP i'r Cwmwl

Croeso i'r rhifyn cyntaf o lythyrau newyddion rheolaidd ar gynnydd taith Uned4 ERP CSC (Agresso gynt) i'r Cwmwl.

Efallai eich bod eisoes wedi clywed bod Uned4 ERP yn mudo i fersiwn SAAS Cwmwl sy'n golygu na fydd bellach yn cael ei gynnal ar safle. Yn ogystal â chynyddu ein cydnheredd TG, bydd yn golygu y gallem gyflawni'r manteision canlynol:

1. Byddwn bob amser ar y fersiwn ddiweddaraf o'r feddalwedd sy'n golygu y gallwn fanteisio ar yr holl ymarferoldeb diweddaraf
2. Lleihau ein risgiau sy'n gysylltiedig ag addasiadau pwrpasol ac adnoddau
3. Rhyddhau ein hadnodd TG i ganolbwyntio ar ddatblygiadau Newydd
4. Caniatáu integreiddiad haws ag apiau eraill
5. Mwy o hygyrchedd gan ddefnyddio porwr gwe ac mewn dyfeisiau symudol yn y dyfodol

Mae'r daith i'r Cwmwl eisoes wedi dechrau



Beth mae hyn yn ei olygu i ddefnyddwyr?

A fydd yn wahanol?

Y prif wahaniaeth o ran cael ei gynnal yn y Cwmwl yw y bydd angen cyflawni pob swyddogaeth defnyddiwr gan ddefnyddio'r fersiwn Gwe o Uned4 ERP. Y nod yw gwneud y trawsnewidiad i'r Cwmwl mor ddi-dor â phosibl.

Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr eisoes yn ddefnyddwyr Gwe e.e. ar gyfer codi archebion gwerthiant a chodi neu gymeradwyo archebion ac anfonebau, felly bydd y defnyddwyr hynny yn sylwi ar ychydig iawn o wahaniaeth neu ddim gwahaniaeth o gwbl i olwg a'r defnydd presennol o'r system. Mae defnyddwyr sy'n dal i ddefnyddio'r system 'swyddfa gefn' eisoes yn cael eu hannog i ddefnyddio'r We ar gyfer pethau fel ymholiadau a chyfnodolion. Ar gyfer y defnyddwyr sy'n weddill bydd angen gwneud rhai newidiadau i drosglwyddo i'r We.



Cysylltwch â ni drwy e-bostio:

CRFinanceSystems@Carmarthenshire.gov.uk

Cwestiynau?

Beth yw'r amserlen?

Rydym yn anelu at gwblhau'r gwaith canol 2026.

A fydd hyfforddiant?

Bydd, os yw'r newidiadau yn effeithio arnoch chi yna bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

A fydd hi'n system wahanol?

Na, yr un system fydd hi ond efallai y bydd rhai sgriniau yn edrych ychydig yn wahanol os nad ydych eisoes yn defnyddio'r fersiwn Gwe. Os oes unrhyw newidiadau sy'n gofyn i chi ddefnyddio sgriniau gwahanol, byddwn yn eich hyfforddi.

Beth nesaf?

Mae yna lawer o gamau is-brosiect y mae angen eu cwblhau ar hyd y ffordd. Mae tîm bach o staff TG ymroddedig eisoes wedi gweithio am fwy na blwyddyn i symud o Oracle i Microsoft SQL, gan arwain at newid cronfa ddata o fwy na 100 miliwn o linellau - hanes ariannol CCC dros y ddau ddegawd diwethaf, yn ogystal â'r cyfriflyfrau ar gyfer Heddlu Dyfed Powys, Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - a gynhelir dros benwythnos y Pasg.

Y cam nesaf yw uwchraddio ERP ar y safle i'r Fersiwn 7.15 ddiweddaraf er mwyn caniatáu ymarferoldeb Gwe llawn. Wedi'i gynllunio i'w gwblhau erbyn mis Awst.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gynorthwyo defnyddwyr i symud i'r fersiwn Gwe wrth i fwy o ymarferoldeb ddod ar gael.